

Gweithdrefn Rhannu Pryderon

Cymeradwyaeth	
Cymeradwywyd gan y Cyngor	Dyddiad: 25 Chwefror 2015
Gweithredu'r Polisi	Dyddiad: 26 Chwefror 2015
Cwblhawyd Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb:	Dyddiad: Hyd 2014 – Chwefror 2015
Fersiwn	1.1

Gweithdrefn Rhannu Pryderon

1. CYFLWYNIAD

- 1.1 Yr unigolion sy'n gweithio i'r Cyngor neu gyda'r Cyngor yn aml yw'r cyntaf i sylweddoli bod rhywbeth, o bosibl, yn bod oddi mewn i'r Cyngor. Fodd bynnag, efallai na fyddant yn teimlo eu bod yn gallu mynegi eu pryder oherwydd eu bod yn teimlo y byddai lleisio eu barn yn bradychu eu cydweithwyr, rheolwyr neu'r Cyngor. Efallai y byddant hefyd yn ofni aflonyddwch neu annhegwch. Efallai y byddant yn poeni am godi materion o'r fath neu efallai y byddant am gadw'r pryderon iddyn nhw eu hunain, yn teimlo o bosibl nad yw'n fusnes iddynt hwy neu mai amau yn unig y maent. Efallai y byddant yn penderfynu dweud rhywbeth ond yn gweld eu bod wedi siarad â'r person anghywir neu wedi codi'r mater yn y ffordd anghywir ac yn ansicr o'r hyn i'w wneud nesaf.
- 1.2 Mae'r Cyngor wedi cyhoeddi'r polisi hwn er mwyn eich galluogi i godi eich pryderon yn fuan ac yn y ffordd gywir. Byddai'n well gennym eich bod yn codi'r mater pan fydd gennych bryder yn hytrach nag aros am dystiolaeth.
- 1.3 Mae'r polisi hwn yn ei gwneud yn glir y gallwch fynegi eich pryderon heb ofni aflonyddwch, annhegwch, gwahaniaethu yn deillio o hynny neu anfantais, a'i nod yw annog a galluogi i bobl sy'n gweithio i'r Cyngor neu gyda'r Cyngor i godi pryderon am broblemau o fewn y sefydliad yn hytrach na throi cefn ar broblem. Mae'r polisi hwn yn darparu gweithdrefn adrodd fewnol ac ystod o gysylltiadau allanol y gellir cysylltu â hwy lle rydych yn teimlo nad oes modd trin eich pryderon yn briodol o fewn y sefydliad. Os oes rhywbeth yn eich poeni ac y credwch y dylem wybod amdano neu edrych i mewn iddo, defnyddiwch y polisi hwn.
- 1.4 Mae'r polisi hwn yn gymwys i bob un o'r canlynol:
 - Gweithwyr Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam;
 - Ymgynghorwyr, gweithwyr neu gontractwyr asiantaeth (neu eu gweithwyr) sy'n gweithio i'r Cyngor (gan gynnwys y rhai nad ydynt yn gweithio ar safleoedd y Cyngor);
 - Y rhai sy'n darparu gwasanaethau o dan gontract neu gytundeb arall gyda'r Cyngor ar eu safle eu hunain, er enghraifft, cartrefi gofal;
 - Gweithwyr gwirfoddol sy'n gweithio gyda'r Cyngor fel rhan o, neu ynghyd â, gwasanaethau'r Cyngor.

Fodd bynnag, nid yw'r polisi hwn yn berthnasol i Aelodau etholedig, a allai ddymuno gwneud adroddiad rhannu pryderon neu gŵyn. Nid oes gan Aelodau Etholedig yr un diogelwch statudol â gweithwyr eraill, ac fel y cyfryw, ni fyddant yn cael eu diogelu o dan y polisi hwn. Rhaid cyfeirio at adran 8 o'r polisi hwn sy'n ymdrin ag achosion lle caiff adroddiad rhannu pryderon ei dderbyn gan Aelod yn uniongyrchol.

Ar ben hynny, nid yw'r polisi hwn yn berthnasol i weithwyr a benodir gan Gorff Llywodraethu ysgol o fewn Bwrdeistref Sirol Wrecsam lle bydd gweithdrefn fel arfer yn cael ei ddarparu gan y Corff Llywodraethu perthnasol.

2. NODAU A CHWMPAS Y POLISI HWN

- 2.1 Mae'r Polisi Rhannu Pryderon yn rhan bwysig o fframwaith llywodraethu corfforaethol y Cyngor a'i nodau yw:
 - eich annog i deimlo'n hyderus wrth godi pryderon ac i gwestiynu pryderon am gamwedd a mynd i'r afael â hwy;

- darparu llwybrau i chi godi pryderon a derbyn adborth am unrhyw gamau gweithredu a gymerir;
- sicrhau eich bod yn cael ymateb i'ch pryderon a'ch bod yn ymwybodol o sut i'w dilyn os nad ydych yn fodlon;
- eich sicrhau y cewch eich diogelu rhag gweithrediadau dial neu weithred arall os credwch yn rhesymol eich bod wedi gwneud unrhyw ddatgeliad mewn ewyllys da.

2.2 Nod y Polisi Rhannu Pryderon yw cwmpasu pryderon heblaw eich cyflogaeth, lle bydd budd eraill neu fudd y Cyngor ei hun o dan risg. Mae'r rhain yn cynnwys:

- ymddygiad sy'n drosedd neu'n dor-cyfraith;
- datgeliadau sy'n gysylltiedig â chamwedd;
- achosion lle mae iechyd a diogelwch unrhyw unigolyn wedi cael ei beryglu neu'n debygol o fod mewn perygl;
- gwahaniaethu anghyfreithlon;
- niwed i'r amgylchedd;
- defnydd anawdurdodedig o arian cyhoeddus;
- llwgrwobrwyath, twyll ac anonestrwydd posibl;
- lladrata neu ddefnyddio arian neu offer cyhoeddus heb awdurdod;
- cam-drin cleientiaid yn rhywiol neu'n gorfforol;
- esgeuluso plant, eu cam-drin yn emosiynol, corfforol neu rywiol neu ymddygiad amhriodol arall tuag atynt,
- triniaeth anfoesol arall; neu
- gwybodaeth sy'n tueddu i ddangos fod unrhyw un o'r materion hyn yn cael neu'n debygol o gael ei guddio yn fwriadol.

Ni fwriedir i hon fod yn rhestr drylwyr.

2.3 Felly, gellir adrodd am unrhyw bryderon sydd gennych am unrhyw agwedd ar ddarpariaeth gwasanaeth neu ddull o reoli swyddogion neu aelodau o'r cyngor neu eraill sy'n gweithredu ar ran y cyngor o dan y Polisi Rhannu Pryderon. Gall hyn fod yn unrhyw un o'r canlynol:

- rhywbeth sy'n gwneud i chi deimlo'n anghyfforddus o ran safonau sy'n hysbys i chi, eich profiad neu'r safonau y credwch y mae'r Cyngor yn eu dilyn; neu
- rhywbeth sydd yn erbyn Gorchmynion Sefydlog y Cyngor, ei Reoliadau Ariannol a'i bolisiâu; neu
- rhywbeth sydd ddim yn cyrraedd safonau ymarfer sefydledig; neu
- rhywbeth sy'n cyfateb i ymddygiad amhriodol

2.4 Mae Cod Ymddygiad Swyddogion Para. 18 yn dweud, os bydd gweithiwr yn gwybod am weithgareddau sydd, yn ei farn ef neu hi, yn anghyfreithlon, amhriodol neu anfoesegol, yna dylai'r gweithiwr roi gwybod am y mater yn unol â'r Polisi hwn.

2.5 Nid yw'r Polisi hwn yn gymwys yn yr amgylchiadau canlynol:

2.5.1 Materion sy'n ymwneud â Chyflogaeth

Os ydych yn weithiwr, mae gweithdrefnau presennol ar waith er mwyn eich galluogi i godi pryderon sy'n ymwneud â'ch cyflogaeth eich hun, megis materion yn ymwneud â'ch contract cyflogaeth, cyflog, problemau gyda'ch cydweithwyr ac ati. Nid yw'r materion hyn yn faterion rhannu pryderon ar y cyfan, ond yn hytrach achwyniadau neu gwynion cyflogaeth cyffredinol. Dylid codi'r mathau hyn o faterion yn uniongyrchol gyda'ch rheolwr fel arfer ac yn unol â'r polisi Cyngor perthnasol (megis y Weithdrefn Gwyno, Polisi a Gweithdrefn Gwrth-Fwlio ac Aflonyddwch Urddas yn y Gwaith, ac ati).

2.5.2 Ymddygiad Aelodau Etholedig (ar wahân i'r uchod)

Dylid codi pryderon sy'n ymwneud ag ymddygiad Aelodau etholedig, ar wahân i'r mathau o bryder a amlinellir yn 2.2 uchod, o dan ddarpariaethau cwynion y Protocol ar Berthnasau Aelodau/Swyddogion, a chânt eu cyfeirio fel arfer at eich rheolwr atebol yn y lle cyntaf.

2.5.3 Cwynion

Nid yw'r polisi hwn yn disodli'r *Weithdrefn Gwyno* gorfforaethol sy'n mynd i'r afael â chwynion am wasanaethau'r Cyngor.

2.5.4 Gwasanaethau Eraill

Os oes gennych unrhyw bryderon am sefydliad arall sy'n darparu gwasanaethau ar ran y Cyngor, dylech gysylltu â'r darparwr gwasanaeth yn y lle cyntaf. Mewn achosion lle mae'r Cyngor yn contractio gyda sefydliad preifat, gall fod yn briodol i roi gwybod i Faes Gwasanaeth perthnasol y Cyngor. Mewn rhai achosion, efallai y bydd angen rhoi gwybod i'r sefydliad rheoleiddio priodol hefyd.

3. MESURAU DIOGELU – EIN SICRWYDD I CHI

3.1. Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i sicrhau arfer da a safonau uchel ac mae am gefnogi gweithwyr ac eraill gan ddefnyddio'r polisi hwn.

Eich hawliau cyfreithiol

3.2. Mae Deddf Hawliau Cyflogaeth 1996 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998) yn rhoi diogelwch cyfreithiol i weithwyr (gan gynnwys contractwyr a staff asiantaeth) sy'n codi pryderon gwirioneddol ac yn gwneud datgeliadau am gamwedd sydd, yn eu barn hwy, er lles y cyhoedd. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn anghyfreithiol i'r Cyngor ddiystyru unrhyw un neu ganiatáu iddynt gael eu cosbi neu eu herlid ar y sail eu bod wedi gwneud datgeliad cyfreithiol priodol yn unol â Deddf Hawliau Cyflogaeth 1996 ("y Ddeddf" o hyn ymlaen).

Cefnogaeth i chi

3.3. Mae'r Cyngor yn cydnabod y gall y penderfyniad i adrodd am bryder fod yn un anodd ei wneud. Os credwch fod yr hyn rydych yn ei ddweud yn wir a'i fod er lles y cyhoedd, yna nid oes gennych unrhyw beth i'w ofni oherwydd byddwch yn gwneud eich dyletswydd i'ch cyflogwr ac i'r rheini rydych yn darparu gwasanaeth iddynt. Ni fyddwch mewn perygl o golli eich swydd na dioddef unrhyw fath o gosb o ganlyniad.

- 3.4. Ni fydd y Cyngor yn caniatáu darostyngiad y rhai sydd wedi adrodd pryderon am wahaniaethu, aflonyddwch nac erledigaeth (gan gynnwys pwysau anffurfiol) a bydd yn cymryd y camau gweithredu priodol, gan gynnwys camau disgyblu er mwyn eich diogelu pan fyddwch yn codi pryder.
- 3.5. Ni fydd unrhyw ymchwiliadau i honiadau o gamwedd posibl a godwyd gennych yn dylanwadu ar, neu'n cael ei ddylanwadu gan weithdrefnau eraill fel ymchwiliadau a gwrandawiadau o dan y gweithdrefnau disgyblu, salwch, galluedd, colli swydd neu unrhyw weithdrefn arall sydd eisoes yn effeithio arnoch neu a allai effeithio arnoch yn y dyfodol.
- 3.6. Bob tro yr eir i'r afael ac y gwneir ymchwil i'ch pryderon:
 - 3.6.1 cewch gefnogaeth lawn gan yr Uwch Dîm Rheoli;
 - 3.6.2 caiff eich pryderon eu cymryd o ddifrif;
 - 3.6.3 bydd y Cyngor yn gwneud popeth o fewn ei allu i'ch helpu drwy gydol yr ymchwiliad, e.e. darparu gwasanaethau eiriolaeth, cyfieithwyr ac ati
- 3.7. Os yw'n briodol ar ôl cael ymgynghoriad llawn, bydd y Cyngor yn ystyried eich ail-leoli chi neu eraill dros dro dros gyfnod yr ymchwiliad.

CYFRINACHEDD

- 4.1. Caiff yr holl bryderon eu trin yn gyfrinachol a gwneir pob ymdrech i beidio â datgelu eich hunaniaeth os mai dyna ydi eich dymuniad. Os bydd sefyllfa'n codi lle na fyddwn yn gallu datrys y pryder heb ddatgelu eich hunaniaeth, cewch eich hysbysu o hyn ac o'r rhesymau. Weithiau, efallai y bydd angen pasio eich manylion ymlaen i gyrff gorfodi'r gyfraith allanol, fel yr Heddlu. Os yw hynny'n angenrheidiol, bydd ond yn cael ei wneud ar ôl cynnal ymgynghoriad â chi eich hun.

5 HONIADAU DIENW

- 5.1. Mae'r polisi hwn yn eich annog i gynnwys eich enw wrth wneud honiad lle y bo'n bosibl.
- 5.2. Mae pryderon a gaiff eu mynegi'n ddiennw yn llawer llai pwerus, ond cânt eu hystyried yn ôl disgrisiwn Pennaeth y Gwasanaethau Corfforaethol a Chwsmeriaid (sydd, fel y nodwyd uchod, yn Swyddog Monitro i'r Cyngor) lle caiff y rhain eu gwneud yn fewnol.
- 5.3. Wrth roi'r disgrisiwn hwn ar waith, byddai'r ffactorau i'w hystyried yn cynnwys y canlynol:
 - difrifoldeb y mater a godwyd;
 - hygrdedd y pryder; a'r
 - tebygolrwydd y caiff yr honiad ei gadarnhau gan ffynonellau y gellir eu priodoli.
- 5.4. Cofiwch y bydd yn llawer anoddach i ni edrych i mewn i'r mater, diogelu eich sefyllfa, a rhoi adborth i chi os na fyddwch yn dweud wrthym pwy ydych chi, neu os ydych yn gwrthod ymgysylltu â'r swyddog ymchwilio. Yn unol â hynny, fe'ch anogir i roi eich enw er mwyn sicrhau y gellir edrych i mewn i'ch adroddiad i'r graddau llawnaf posibl.

5.5. Os bydd y Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol a Chwsmeriaid yn penderfynu peidio â mynd ar drywydd honiad dienw, bydd ef/hi yn cofnodi'r rhesymau dros y penderfyniad hwn yn ysgrifenedig. Bydd y penderfyniadau hyn yn cael eu cynnwys yn adroddiad blynyddol Pennaeth y Gwasanaethau Corfforaethol a Chwsmeriaid i'r Pwyllgor Safonau a gyfeirir ato yn para 11.7 isod.

6. HONIADAU ANWIR

6.1. Os byddwch yn gwneud honiad sydd er budd y cyhoedd yn eich barn chi, ond nad yw wedi'i gadarnhau gan yr ymchwiliad, ni chymerir camau yn eich erbyn. Fodd bynnag, os byddwch yn gwneud honiad yn wamal, yn faleisus neu er budd personol, gellir cymryd camau disgyblu yn eich erbyn.

6.2. Caiff y cwestiwn o p'un ai y gwnaed honiad yn wamal, yn faleisus neu er budd personol ei bennu gan ganlyniad yr ymchwil i'ch pryder.

7 SUT I GODI PRYDER

7.1 Mae'r Cyngor am sicrhau bod unigolion sydd â phryderon y dylid eu codi o dan y Polisi hwn yn gwneud hynny. Mae paragraffau 7.2-7.7 yn nodi'r weithdrefn i chi wneud hynny yn fewnol a bydd yr atodiadau ar ddiwedd y polisi hwn yn rhoi manylion cyswllt ar gyfer y cysylltiadau mewnol ac allanol.

7.2 Pan fyddwch yn teimlo na allwch godi pryder o fewn y sefydliad, gallwch gysylltu ag un o'r cyrff allanol a restrir yn Atodiad 2 i'r polisi hwn ac, os byddant yn derbyn eich cwyn, bydd ganddynt eu gweithdrefn eu hunain i'w dilyn.

7.3 Fel cam cyntaf, rydym yn gobeithio y byddwch yn teimlo y gallwch godi pryderon gyda'ch rheolwr uniongyrchol. Yna, bydd angen i'ch rheolwr roi gwybod am hyn i Bennaeth y Gwasanaethau Corfforaethol a Chwsmeriaid ("Swyddog Monitro" y Cyngor) yn unol â pharagraff 9.3.

7.4 Mewn rhai achosion, efallai y bydd yn fwy priodol i godi pryderon â rhywun â rôl uwch neu'n uniongyrchol ag un o'r cysylltiadau allanol a restrir ar ddiwedd y ddogfen hon (gweler Atodiad 1). Unwaith eto, bydd yr unigolion hyn yn sicrhau y caiff hyn ei godi gyda Phennaeth y Gwasanaethau Corfforaethol a Chwsmeriaid.

7.5 Fodd bynnag, mae hyn yn dibynnu ar ddifrifoldeb a sensitifrwydd y materion a'r sawl a ddrwgdybir o gamymddygiad. Er enghraifft, os ydych yn credu bod eich tîm rheoli yn cymryd rhan, dylech fynd at y Prif Weithredwr, y Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol a Chwsmeriaid, y Pennaeth Cyllid neu'r Rheolwr Archwilio a Thechnegol.

7.6 Os bydd unrhyw wybodaeth yn codi pryderon am niwed neu niwed posibl o blant neu oedolion diamddiffyn, yna dylid adrodd am y pryderon hyn ar unwaith i'r Cydlynnydd Amddiffyn Plant neu'r Cydlynnydd Diogelu Oedolion Diamddiffyn neu'r Tîm Dyletswydd mewn Argyfwng y tu allan i oriau.

7.7 Os oes gennych bryderon difrifol y teimlwch na allwch eu codi â'r Cyngor am ba bynnag reswm, dylech godi'r mater ag un o'r pwyntiau cyswllt allanol y cyfeirir atynt yn Atodiad 2 i'r ddogfen hon.

7.8 Gellir mynegi pryderon ar lafar neu'n ysgrifenedig. Lle byddwch yn gwneud eich pryderon yn hysbys ar lafar, gall y Cyngor ysgrifennu atoch yn amlinellu eich pryderon er mwyn sicrhau bod y rhain wedi'u nodi'n gywir. Os hoffech wneud adroddiad ysgrifenedig, yna gallwch ddefnyddio'r fformat canlynol:

- cefndir a hanes y pryder (gan gynnwys dyddiadau perthnasol);
- y rheswm pam eich bod yn pryderu'n benodol am y sefyllfa.

Gallwch ddefnyddio'r ffurflen adroddiad sydd ar ddiwedd y polisi hwn os byddai'n well gennych wneud hynny, a'i rhoi i'r unigolyn rydych yn codi'ch pryder â nhw. Rhowch gymaint o wybodaeth ag y gallwch, ond mae'n bwysig nad ydych yn rhoi honiadau di-sail, peidiwch â chadw golwg ar yr unigolion dan sylw fel na fyddwch yn cyflawni unrhyw weithred anghyfreithlon neu'n rhoi eich hun neu eraill mewn perygl o niwed wrth gael y wybodaeth. Bydd y pryderon a godwch yn cael eu hymchwilio'n llawn unwaith y byddant wedi cael eu dwyn at sylw Pennaeth y Gwasanaethau Corfforaethol a Chwsmeriaid, a fydd yn sicrhau y caiff unrhyw ymchwiliad ei gynnal yn gyfreithlon ac yn briodol.

- 7.9 Po gynharaf y byddwch yn mynegi eich pryder, yr hawsaf y bydd i gymryd camau gweithredu.
- 7.10 Er na ddisgwylir i chi brofi gwirionedd honiad, bydd angen i chi ddangos i'r unigolyn y byddwch yn cysylltu â nhw bod sylfaen digonol i'ch pryder.
- 7.11 Gellir cael cyngor a chanllawiau ar sut i ddilyn materion o bryder naill ai gan eich Pennaeth Adran, neu Bennaeth y Gwasanaethau Corfforaethol a Chwsmeriaid.
- 7.12 Gallwch wahodd eich cynrychiolydd Undeb Llafur neu gydweithiwr i fod yn bresennol yn ystod unrhyw gyfarfodydd neu gyfweiliadau mewn perthynas â'r pryderon rydych wedi'u codi. Os bydd angen cyfleusterau cyfieithu, yna dylech roi gwybod i'r swyddog ymchwilio perthnasol cyn gynted ag y bo modd.

8 ADRODDIADAU RHANNU PRYDERON A RODDIR I AELODAU ETHOLEDIG

- 8.1 Mae'r adran hon yn berthnasol i achosion lle bydd cyflogai, neu unigolyn arall y mae'r polisi hwn yn gymwys iddo, yn gwneud adroddiad rhannu pryderon neu gŵyn yn uniongyrchol i aelod etholedig yr awdurdod hwn.
- 8.2 Os bydd rhywun yn mynd at aelod etholedig mewn cysylltiad â phryder a gwmpesir gan y polisi hwn, dylent annog unigolion i godi pryder yn unol â'r polisi hwn.
- 8.3 Mewn achosion lle bydd aelod etholedig yn cael adroddiad rhannu pryderon, rhaid iddynt ei anfon ymlaen at Bennaeth y Gwasanaethau Corfforaethol a Chwsmeriaid a fydd wedyn yn prosesu'r adroddiad yn unol â'r polisi hwn.
- 8.4 Ni ddylai aelodau etholedig ymchwilio i bryderon a gaiff eu codi eu hunain.

9 SUT BYDD Y CYNGOR YN YMATEB

- 9.1 Bydd yr adran hon yn berthnasol i bob pryder a godir yn fewnol. Pan fydd cwyn yn cael ei godi gyda chorff allanol, a restrir yn Atodiad 2, efallai y bydd y weithdrefn yn amrywio yn dibynnu ar sut bydd y corff allanol yn bwriadu ymdrin â'r mater.
- 9.2 Bydd y Cyngor yn ymateb i'ch pryderon (ar yr amod eich bod wedi darparu manylion cyswllt) ac efallai y bydd angen gofyn cwestiynau i chi fel rhan o'r ymchwiliad. Peidiwch ag anghofio nad yw profi eich pryderon yr un fath â'u derbyn neu eu gwrthod. Fodd bynnag, trafodaethau uniongyrchol gyda chi eich

hun yn aml yw'r ffordd orau o ymchwilio i bryderon ac felly byddai'n fuddiol pe byddech yn gwneud yn siŵr eich bod ar gael ar gyfer ymchwiliad y Cyngor.

- 9.3 **Rhaid** i'r person rydych yn adrodd eich pryderon wrthynt, o dan y polisi hwn, eu hadrodd i Bennaeth y Gwasanaethau Corfforaethol a Chwsmeriaid o fewn tri diwrnod gwaith.
- 9.4 Bydd Pennaeth y Gwasanaethau Corfforaethol a Chwsmeriaid yn cysylltu â'r Rheolwr Archwilio a Thechnegol i ystyried y dull mwyaf priodol o ymchwilio i'r materion o bryder y byddwch yn eu codi. Peidiwch â cheisio archwilio'r materion hyn eich hun unwaith y byddant wedi cael eu codi oherwydd gallai hyn gyfaddawdu unrhyw archwiliad dilynol i'ch pryder.
- 9.5 Er mwyn diogelu unigolion a'r rhai a gyhuddir o droseddau neu o gamweddau posibl, gwneir ymholiadau cychwynnol i benderfynu a yw ymchwiliad yn briodol ac, os hynny, pa fath o ymchwiliad a ddylid ei gynnal. Egwyddor bwysicaf y Cyngor fydd budd y cyhoedd.
- 9.6 Efallai y ceir achosion lle bydd adroddiad rhannu pryderon yn cynnwys amrywiaeth o faterion, efallai y bydd rhai y tu allan i gwmpas y polisi hwn (megis lle caiff materion cyflogaeth cyffredinol eu codi). Yn unol â hynny, i fynd i'r afael â'r posibilrwydd hwn, bydd y Cyngor yn ymdrechu i alw cyfarfod cychwynnol gyda chi (a gall cynrychiolydd Undeb Llafur neu gydweithiwr ddod gyda chi) i drafod eich pryderon ac i bennu a ellir ymdrin â hwy yn gyfan gwbl o dan y polisi hwn, neu a fydd angen defnyddio polisïau eraill ar gyfer rhan o'ch pryderon neu eich pryderon i gyd. Mewn achosion lle ystyrir nad yw eich pryderon yn dod o dan y polisi hwn yn eu cyfanrwydd, ni fydd y polisi hwn yn gymwys, er y bydd y Cyngor yn ymdrechu i gadw manylion eich cyfarfod cychwynnol yn gyfrinachol fel y nodir yn adran 4 uchod.
- 9.7 Gellir datrys rhai pryderon drwy gymryd camau gweithredu y cytunir arnynt, heb orfod cynnal ymchwiliad pellach. Os bydd angen cymryd camau ar frys, eir i'r afael â hyn cyn cynnal unrhyw ymchwiliad.
- 9.8 Lle y bo'n briodol, gall y materion a godwyd:
 - gael eu harchwilio'n fewnol gan y tîm rheoli, adain archwilio mewnol neu drwy'r broses ddisgyblu;
 - gael eu cyfeirio at yr Heddlu;
 - gael eu cyfeirio at yr Archwiliwr Allanol;
 - ffurfio pwnc ymholiad annibynnol.
- 9.9 O fewn deg diwrnod gwaith ar ôl mynegi pryder, byddwch yn cael llythyr (neu wybodaeth yn eich fformat dewisol) yn nodi'r canlynol:
 - cydnabod bod y pryder wedi ei derbyn;
 - nodi sut rydym yn bwriadu mynd i'r afael â'r mater;
 - rhoi amcangyfrif o ba mor hir y bydd yn ei gymryd i roi ymateb terfynol;
 - dweud wrthynt p'un a oes unrhyw ymholiadau cychwynnol wedi'u gwneud;
 - rhoi gwybodaeth i chi am fecanweithiau i gefnogi staff; a
 - rhoi gwybod i chi a fydd ymchwiliadau pellach yn cael eu cynnal, ac os ddim, beth yw'r rheswm am hynny.
- 9.10 Bydd faint o gyswllt a geir rhwng y swyddogion sy'n ystyried y materion a chi yn dibynnu ar natur y materion a godwyd, yr anawsterau posibl sy'n ymwneud â'r materion ac eglurder y wybodaeth a ddarperir. Ceisir mwy o wybodaeth gennych os bydd angen.

- 9.11 Lle caiff unrhyw gyfarfod ei drefnu, oddi ar y safle os byddai'n well gennych, gall cynrychiolydd Undeb neu gydweithiwr ddod gyda chi
- 9.12 Bydd y Cyngor yn cymryd camau i leihau unrhyw anawsterau y gallech eu profi o ganlyniad i godi pryder. Er enghraifft, os mai canlyniad ymchwiliad fydd camau'n cael eu cymryd yn erbyn testun y pryder a'i bod yn ofynnol i chi roi tystiolaeth mewn achos troseddol neu ddisgyblu, bydd y Cyngor yn rhoi cyngor i chi am y weithdrefn ac yn ymdrechu i roi'r cymorth angenrheidiol mewn perthynas ag achosion o'r fath.
- 9.13 Mae'r Cyngor yn derbyn bod angen eich sicrhau yr aethpwyd i'r afael â'r mater yn briodol. Yn amodol ar gyfyngiadau cyfreithiol, byddwch yn cael gwybodaeth am ganlyniad unrhyw ymchwiliad.
- 9.14 Er na allwn fod yn sicr y byddwn yn ymateb i bob mater yn y ffordd y byddech yn dymuno, byddwn yn ceisio mynd i'r afael â'r mater yn deg, yn gywir a heb unrhyw oedi diangen. Drwy ddefnyddio'r polisi hwn, byddwch yn ein helpu i gyflawni hyn.
- 9.15 Lle mae'n ofynnol i'r Cyngor gyfweld aelodau eraill o staff, bydd ganddynt yr hawl i gael cwmni cynrychiolydd Undeb Llafur neu gydweithiwr mewn unrhyw gyfweiliad/cyfarfod o'r fath. Ar ben hynny, pan fydd ymchwiliad yn cloi gyda chanfyddiad nad oedd unrhyw achos i'w ateb, bydd gweithwyr a gafodd eu cyfweld yn cael eu hysbysu o hyn drwy lythyr.

10 CYNGOR ANNIBYNNOL

- 10.1 Os ydych yn ansicr o sut i godi pryder neu os hoffech gael cyngor cyfrinachol, gallwch gysylltu â'r elusen annibynnol, Public Concern at Work ar 020 7404 6609 neu ar www.pcaaw.co.uk.

Gall eu cyfreithwyr a'u cynghorwyr roi cyngor cyfrinachol am ddim i chi ar sut i godi pryder am gamwedd difrifol yn y gwaith.

- 10.2 Efallai y byddai'n well gennych siarad â'ch Undeb Llafur i gael cyngor am sut i godi pryder o dan y polisi hwn. Mae'r manylion cyswllt ar gyfer yr undebau llafur a gydnabyddir gan y Cyngor ar gyfer dibenion bargeinio cyfunol yn Atodiad 2.

11 Y SWYDDOG CYFRIFOL

- 11.1 Mae gan Bennaeth y Gwasanaethau Corfforaethol a Chwsmeriaid gyfrifoldeb cyffredinol am y gwaith cynnal a chadw a gweithredu'r polisi hwn.
- 11.2 Mae Pennaeth y Gwasanaethau Corfforaethol a Chwsmeriaid yn cadw a chynnal cofnodion o bryderon a godwyd a chanlyniadau'r ymchwiliadau mewn ffordd nad yw'n peryglu eich cyfrinachedd.
- 11.3 Rhaid i'r unigolyn sy'n derbyn eich pryderon eu hadrodd i Bennaeth y Gwasanaethau Corfforaethol a Chwsmeriaid yn unol â phwynt 7.3 uchod.
- 11.4 Rhaid i'r unigolyn sy'n derbyn yr adroddiad ynghylch ymchwilio eich pryderon adrodd ar y canlyniadau i Bennaeth y Gwasanaethau Corfforaethol a Chwsmeriaid.

- 11.5 Bydd Pennaeth y Gwasanaethau Corfforaethol a Chwsmeriaid yn mynd i'r afael â chanlyniadau'r ymchwiliad os na chânt eu hadrodd yn brydlon yn unol â phwynt 11.4 uchod.
- 11.6 Bydd Pennaeth y Gwasanaethau Corfforaethol a Chwsmeriaid yn adolygu'r holl bryderon a'r canlyniadau yn achlysurol er mwyn sicrhau y caiff pob un eu hymchwilio yn unol â'r Polisi hwn.
- 11.7 Bydd Pennaeth y Gwasanaethau Corfforaethol a Chwsmeriaid yn adrodd, mewn ffordd na fydd yn cyfaddawdu cyfrinachedd, o leiaf unwaith y flwyddyn i'r Pwyllgor Safonau ar gamau gweithredu'r Polisi hwn, ar ganlyniadau'r adolygiadau a gynhaliwyd o dan 11.6 uchod ac unrhyw newidiadau mewn ymarfer a gyflwynwyd o ganlyniad i bryder a godwyd dan y Polisi hwn.

12 SUT Y GELLIR MYND Â'R MATER YMHELLACH

- 12.1 Bwriedir i'r Polisi hwn roi llwybr i chi godi pryderon o fewn y Cyngor. Mae'r Cyngor yn gobeithio y byddwch yn fodlon ag unrhyw gamau gweithredu a gymerir. Os nad ydych yn fodlon a'ch bod yn teimlo mai'r peth iawn i'w wneud yw mynd â'r mater y tu allan i'r Cyngor, mae pwyntiau cyswllt pellach ar gael yn y Rhestr o Gysylltiadau Allanol yn Atodiad 2 i'r polisi hwn.
- 12.2 Os byddwch yn mynd â'r mater y tu allan i'r Cyngor, dylech sicrhau nad ydych yn cynnwys gwybodaeth y dylai aros yn gwbl gyfrinachol. Bydd angen i chi gadarnhau hyn â'r unigolyn neu'r sefydliad y byddwch yn dewis cysylltu â nhw..
- 12.3 Mae'n ddyletswydd ar y Cyngor i gydymffurfio â Deddf Diogelu Data 1998 (sydd â'r nod o sicrhau eich preifatrwydd) a Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (sy'n ymwneud â rhyddhau gwybodaeth i'r cyhoedd). Fodd bynnag, bydd y Cyngor yn ymdrechu i sicrhau bod eich cyfrinachedd a'ch preifatrwydd yn cael ei ddiogelu bob amser. Os oes gennych unrhyw bryderon am hyn, yna dylech eu cyfeirio at Bennaeth y Gwasanaethau Corfforaethol a Chwsmeriaid.

RHESTR GYSWLLT MEWNOL

Gellir cael cyngor neu arweiniad am sut i fynd i'r afael â materion o bryder gan unrhyw un o'r unigolion a enwir isod:

Prif Weithredwr, Neuadd y Dref, Wrecsam, LL11 1AY - Rhif Ffôn 01978 292100

Cyfarwyddwr Gweithredol, Lle a'r Economi (Ail-Iunio), Neuadd y Dref, Wrecsam, LL11 1AY - Rhif Ffôn: 01978 292400

Cyfarwyddwr Gweithredol, Pobl (Cwsmeriaid a chysylltiad â Chwsmeriaid), Neuadd y Dref, Wrecsam LL11 1AY - Rhif Ffôn: 01978 297420

Pennaeth y Gwasanaethau Corfforaethol a Chwsmeriaid, Adran Gwasanaethau Corfforaethol a Chwsmeriaid, Neuadd y Dref, Wrecsam, LL11 1AY - Rhif Ffôn: 01978 292202

Dirprwy Swyddog Monitro, Adain Gwasanaethau Cyfreithiol, Adran Gwasanaethau Corfforaethol a Chwsmeriaid, Neuadd y Dref, Wrecsam, LL11 1AY - Rhif Ffôn: 01978 292221

Pennaeth Cyllid, Stryt y Lampint, Wrecsam, LL11 1AR - Rhif Ffôn: 01978 292704

Rheolwr Archwilio a Thechnegol, Adran Gyllid, Stryt y Lampint, Wrecsam, LL11 1AR - Rhif Ffôn: 01978 292750

Cadeirydd y Pwyllgor Safonau - Drwy lythyr wedi'i selio i'r Adain Bwyllgorau, Neuadd y Dref, Wrecsam, LL11 1AY

Unrhyw Bennaeth Adran neu unrhyw swyddog Undeb Llafur lleol arall.

Unrhyw Aelod Etholedig o Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (a fydd yn cyfeirio'r pryderon yn unol ag adran 8 o'r polisi hwn)

Dylai pryderon am niwed neu niwed posibl i blentyn, person ifanc neu oedolyn diamddiffyn gael eu hadrodd ar unwaith at:

Plentyn neu Berson Ifanc:

Gweithiwr Cymdeithasol ar Ddyletswydd - Rhif Ffôn: 01978 292039

Oedolion Diamddiffyn:

Pennaeth Gwasanaeth, Diogelu Pobl - Rhif Ffôn: 01978 295460

Ar gyfer Oedolion neu Blant a Phobl Ifanc:

Tîm Dyletswydd Argyfwng (tu allan i oriau) - Rhif Ffôn: 0845 0533116

RHESTR GYSWLLT ALLANOL

Er bod y Cyngor yn annog gweithwyr i wneud defnydd o gysylltiadau mewnol i geisio codi cwyn rhannu pryderon, caniateir i chi o dan y gyfraith gysylltu â chyrrff/unigolion rheoleiddio penodol. Ar ben hynny, mae'r Cyngor yn cydnabod rhai cyrrff allanol ychwanegol y gallwch eu defnyddio i godi cwyn rhannu pryderon.

O dan y Ddeddf Datgan er Lles y Cyhoedd (Unigolion Rhagnodedig) 2014, mae rhestr ragnodedig o gyrrff/unigolion y gellir cysylltu â hwy yn allanol. Gellir gweld y rhestr lawn yn y gorchymyn¹, ond y rhai sydd fwyaf tebygol o fod yn berthnasol yw: -

Corff/Unigolyn**Materion y gellir cyfeirio atynt**

Archwilydd Cyffredinol Cymru

Cynnal busnes cyhoeddus yn briodol; gwerth am arian, twyll a llygredigaeth mewn perthynas â darparu gwasanaethau cyhoeddus.

Rhif Ffôn: 01244 525970

Cyngor Gofal Cymru

Materion yn ymwneud â chofrestru gweithwyr gofal cymdeithasol o dan y Ddeddf Safonau Gofal 2000.

Rhif Ffôn: 0300 30 33 444

Prif Weithredwr y Comisiwn
Adolygu Achosion TroseddolCamwedd gwirioneddol neu bosibl.
Comisiwn

Rhif Ffôn: 0121 233 1473

Comisiynydd Plant Cymru

Materion yn ymwneud â hawliau, lles a buddiannau plant.

Rhif Ffôn: 01492 523333
(Swyddfa Conwy)Awdurdod Gweithredol Iechyd
a Diogelwch

Materion a allai effeithio ar iechyd neu ddiogelwch unrhyw unigolyn yn y gwaith ar wahân i unigolion yn y gwaith sydd, yn gyfan gwbl neu'n bennaf ar safleoedd sydd yn, neu sydd ar -

Rhif Ffôn: 0300 0031647
(Tîm Pryderon)

- (a) safle niwclear Prydain Fawr (o fewn yr ystyr a roddir yn adran 68 o Ddeddf Ynni 2013);
- (b) safle amddiffyniad awdurdodedig (o fewn yr ystyr a roddir yn rheoliad 2(1) o Reoliadau Iechyd a Diogelwch (Awdurdod Gorfodi) 1998); neu

¹ Mae copi o'r gorchymyn, fel a gyhoeddwyd yn wreiddiol ar gael ar:

<http://www.legislation.gov.uk/ukxi/2014/2418/contents/made> Sylwer efallai y bydd y rhestr o gyrrff yn newid o bryd i'w gilydd. Ni all y Cyngor fod yn gyfrifol am gywirdeb y cynnwys ar wefannau allanol.

(c) safle adeiladu gorsaf niwclear newydd (o fewn yr ystyr a roddir yn rheoliad 2A o'r Rheoliadau hynny). Materion a allai effeithio ar iechyd a diogelwch unrhyw aelod o'r cyhoedd, sy'n deillio o neu mewn cysylltiad â gweithgareddau personau wrth eu gwaith ar wahân i bersonau yn y gwaith ar safle niwclear Prydain Fawr, safle amddiffyn awdurdodedig neu safle adeiladu niwclear newydd.

Comisiynydd Gwybodaeth

Rhif Ffôn: 0303 123 1113
Y Gymdeithas Genedlaethol er
Atal Creulondeb i Blant
(NSPCC)

Rhif Ffôn: 0808 800 5000

Cyfoeth Naturiol Cymru
(Asiantaeth yr Amgylchedd
gynt)

Rhif Ffôn: 0300 065 3000
(neu ar gyfer digwyddiadau
brys: 0800 807060)

Ombwdsmon Gwasanaethau
Cyhoeddus Cymru

Rhif Ffôn: 0300 790 0203

Llywodraeth Cymru

<http://wales.gov.uk>

Cydymffurfio â gofynion deddfwriaeth sy'n ymwneud â diogelu data a rhyddid gwybodaeth.

Materion sy'n ymwneud â lles ac amddiffyn plant.

Gweithredoedd neu ddiffyg gweithredu sy'n cael effaith wirioneddol neu bosibl ar yr amgylchedd neu ar reoli neu reoleiddio'r amgylchedd, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â llygredd, tynnu dŵr, llifogydd, llif mewn afonydd, pysgodfeydd mewndirol ac eog neu frithyll mudol.

Aelod neu aelod cyfetholedig o awdurdod perthnasol (h.y. y Cyngor neu gyngor cymuned) yn torri cod ymddygiad yr awdurdod hwnnw.

Materion yn ymwneud â darparu gwasanaethau Rhan II fel y'u diffinnir yn adran 8 o Ddeddf Safonau Gofal 2000 a Deddf Plant 1989.

Materion yn ymwneud ag arolygu ac asesu perfformiad gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol Cymru fel y'i diffinnir yn adran 148 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd a Safonau Cymunedol) 2003.

Materion yn ymwneud ag adolygiad o, ac ymchwiliad i, y ddarpariaeth gofal iechyd gan ac ar gyfer cyrff y GIG yng Nghymru fel y'i diffinnir o dan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd a Safonau Cymdeithasol) 2003.

Yn ogystal â'r uchod, mae'r Cyngor yn cydnabod ac yn cymeradwyo'r cyrff allanol canlynol y gallwch gysylltu â hwy i wneud cwyn rhannu pryderon:

- Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru - Rhif Ffôn: 0300 7900126
- Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol - Rhif Ffôn: 020 7832 7800
- Heddlu Gogledd Cymru - Rhif Ffôn: 0300 330 0101
- Yr Undebau Llafur cydnabyddedig canlynol:

UNITE	Rhif Ffôn: 01352 733611
UNSAIN	Rhif Ffôn: 01492 511667
GMB	Rhif Ffôn: 01492 535313

Os nad ydych yn siŵr a ddylech ddefnyddio'r gwasanaeth hwn, sut i'w ddefnyddio, neu p'un a oes angen cyngor annibynnol arnoch, gallwch gysylltu â'r elusen annibynnol, Public Concern at Work ar 020 7404 6609 neu ar www.pcaw.co.uk. Gall eu cyfreithwyr roi cyngor annibynnol am ddim i chi ar unrhyw gam ar sut i godi pryder am gamwedd difrifol yn y gwaith.

Fel arall, os ydych yn dal yn ansicr o beth i'w wneud, gallwch gael cyngor gan eich canolfan Cyngor ar Bopeth leol (ar gyfer Wrecsam, y rhif cyswllt yw 01978 363332).



Polisi Rhannu Pryderon
Ffurflen Adrodd

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i'r safonau uchaf posibl o onestrwydd, cywirdeb ac atebolrwydd. Yn unol â'r ymrwymiad hwnnw, rydym yn disgwyl i weithwyr ac eraill rydym yn ymwneud â hwy sydd â phryderon, i ddod ymlaen a mynegi'r pryderon hynny. Cydnabyddir y bydd yn rhaid delio â llawer o achosion yn gyfrinachol. Os ydych yn dymuno gwneud adroddiad, defnyddiwch y pro-fforma hwn.

- 1 Cefndir a hanes y pryder (rhowch gymaint o wybodaeth ag y gallwch - dyddiadau, amseroedd digwyddiadau, enwau eraill a all wybod mwy, enwau pobl sy'n gysylltiedig â'r mater)
- 2 Y rhesymau pam eich bod yn pryderu'n benodol am y sefyllfa.

(Atodwch ddalennau ychwanegol os bydd angen)

- 3 Fe'ch anogir i gynnwys eich enw yn yr adroddiad hwn. Mae pryderon a fynegir yn ddiennw yn llawer llai pwerus ond cânt eu hystyried cyn belled â phosibl gan y Cyngor. Os oes modd, rhowch eich enw a'ch manylion isod.

Llofnodwyd

Enw

Adran (os yw'n berthnasol)

Cyfeiriad:

.....

Rhif Ffôn Cyswllt

.....

Cyfeiriad E-bost:

Dyddiad: